**TEMPLED GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/*PROFESSIONAL LEARNING GRANT TEMPLATE***

| | |
|---|---|
| **Ysgol/*School*** | **Ysgol Rhostryfan** |
| **Swm a ddyrannwyd/ *Allocated Sum*** | **£ 10, 701** |

| | |
|---|---|
| **Amlinelliad o'r bwriadau/*Outline of intentions*** | • **Mae'r ysgol wedi ymrwymo i Prosiect Haen 3 Shirley Clarke eleni , ac felly fe fydd yr ysgol yn sicrhau fod yna wariant o'r Grant Dysgu Proffesiynol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau fod y Cydlynwyr yn mynychu y diwrnodau Rhanbarthol , a fod y staff yn cael eu rhyddhau i fynd i ymweld arfer dda ysgolion Haen 1 a Haen 2 .**<br>• **Mae'r ysgol yn cyd-weithio fel Clwstwr Dalgylch Cynradd / Uwchradd ar brosiect Cwricwlwm i Gymru , bydd yr ysgol yn sicrhau fod yr athrawon yn mynychu hyfforddiant ar y meysydd dysgu yn ystod y flwyddyn , ac hefyd yn cael eu rhyddhau i fynychu cyfarfodydd rhyngweithio gyda ysgolion y dalgylch y maent yn cyd-weithio gyda hwy .**<br>• **Mae ADY yn flaenoriaeth ar y CDY a bydd gwariant yn sicrhau fod y cydlynydd yn mynychu hyfforddiant pwrpasol i anghenion y disgyblion. Mae'r cydlynydd hefyd yn ran o Glwstwr Dalgylch Cynradd / Uwchradd ac bydd yn cael ei rhyddhau i fynychu sesiynau hyfforddiant .**<br>• **Gyda'r Pennaeth yn newydd i'r swydd ers Medi , bydd gwariant o'r Grant Dysgu Proffesiynol yn sicrhau fod yr Pennaeth yn mynychu Hyfforddiant angenrheidiol yn ei rôl fel Rheolwr ac Arweinydd e.e IOSH , Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd , Cyfarfodydd gyda'r Mentor.** |

| | |
|---|---|
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ *Expected Impact and Outcomes*** | • **Yr ysgol yn arddangos agweddau cadarn o ddeilliannau Asesu Ffurfiannol yn weithredol yn y dosbarthiadau ar draws y Cyfnodau Allweddol , gyda pob Athro a staff ategol yn ymwybodol o'r gofynion yn dilyn ymrwymiad i Prosiect Shirley Clark Haen 3 . Cysondeb mewn asesu Ffurfiannol ar draws yr ysgol .**<br>• **Hyfforddiant yn datblygu y staff i gynllunio yn thematig ar draws y Meysydd Dysgu gyda'r 4 Diben a'r 12 Egwyddor Addysgeg yn ganolog i gynlluniau'r athrawon. Ffurfio perthynas rhyngweithiol gyda ysgolion ac athrawon y dalgylch.**<br>• **Cydlynydd yn hyderus yn ei rôl yn dilyn mynychu hyfforddiant a cyfleoedd i rannu arfer dda ac adnoddau o fewn y Clwstwr ADY . Sicrhau cysondeb rhwng darpariaeth ADY Cynradd / Uwchradd.**<br>• **Pennaeth yn datblygu yn ei rôl fel arweinydd ac yn gallu defnyddio dulliau Arweinyddiaeth eang i ddatblygu holl randdeiliaid y sefydliad.** |

**Gwerthuso/*Evaluation***

| | |
|---|---|
| **Beth sydd wedi gweithio'n dda/*What worked well*** | |
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau/ *Impact and Outcomes*** | |
| **Y Cam Nesaf/*Next*** | |

| | |
|---|---|
| ***stage*** | |